FFEDERASIWN CENEDLAETHOL CLYBIAU FFERMWYR IFANC
NATIONAL FEDERATION OF YOUNG FARMERS' CLUBS

POLISI - POLICY

DIOGELI PLANT A PHOBL IFANC

SAFEGUARDING OF CHILDREN AND YOUNG PEOPLE

Diweddarwyd		Revised
Awst 06		August 06

CYNNWYS

Tudalen Rhif

3. Datganiad polisi diogelu plant a phobl ifanc FfCCFfI
   Cyfrifoldeb cyfreithiol i ddiogelu plant a phobl ifanc
4. Crynodeb o Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig
7. Gweithdrefn Recriwtio.
8. Gwiriadau Cofnodion Troseddol ar gyfer Personél CFfI
9. Mynediad i'r Biwro Cofnodion Troseddol.
9. Trefn gwyno
9. Polisi Achwyn
10. Polisi cyfrinachedd
11. Asesu risg
11. Hyfforddi
11. Cyfradd staff i bobl ifanc
11. Caniatâd rhieni
12. Cyswllt mewn argyfwng a ffurflenni iechyd ar gyfer aelodau a staff sydd dros 18 oed
12. Cyfrinachedd ffurflenni caniatâd
12. Cofnodion y Clwb
12. Tynnu lluniau mewn digwyddiadau CFfI
13. Tynnu lluniau mewn digwyddiadau CFfI

Atodiadau

A – Amddiffyn Plant

A1 – Beth yw cam-drin plant
A2 – Adnabod cam-drin plant

B – Arfer dda recriwtio

B1 – Pwy ddylai dderbyn gwiriad CRB
B2 – Siart Llif Recriwtio
B3 – Llythyr enghreifftiol datganiad polisi
B4 – Llythyr enghreifftiol datganiad staff
B5 – Ffurflen gais enghreifftiol
B6 – Ffurflen ymholiad geirda enghreifftiol

C – Canllawiau Clwb a Sirol

C1 – Canllawiau arfer dda
C2 – Cyngor cyffredinol ar gyfer cynnal clwb diogel
C3 – Gweithredu amddiffyn plant ar lefel Clwb
C4 – Gweithredu amddiffyn plant ar lefel Sirol
C5 - Disgrifiad swydd enghreifftiol ar gyfer Swyddog Amddiffyn Plant Sirol
C6 – Ffurflen ganiatâd enghreifftiol – Cyfarfodydd Clwb
C7 - Ffurflen ganiatâd enghreifftiol – Ymweliadau
C8 - Ffurflen ganiatâd enghreifftiol – Gweithgareddau Preswyl

D – Ymdrin â digwyddiadau

D1 – Canllawiau Arweinydd Clwb
D2 - Canllawiau Swyddog Amddiffyn Plant Sirol
D3 – Canllawiau ymdrin â honiad
D4 – Ffurflen Cofnodi digwyddiad

E - Sicrhau cyswllt â pholisïau perthnasol eraill CFfI Cymru

E1 - Polisi safonau ymddygiad personol
E2 – Polisi iechyd a diogelwch

DATGANIAD POLISI DIOGELU PLANT A PHOBL IFANC CFfI CYMRU

Mae'r polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc hwn wedi ei lunio gan roddi ystyriaeth i ganllawiau a gynhwysir mewn dogfen a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, 'Safe From Harm' a dogfen Cyngor Cenedlaethol y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, 'Keeping it Safe'.

Mae CFfI Cymru yn cydnabod ac yn cefnogi yn llwyr Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae crynodeb o'r Confensiwn wedi'i gynnwys ar y tudalennau dilynol.

Mae'r polisi yn cydnabod yr ymrwymiadau a'r ddyletswydd gofal sydd gan fudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn unol â gofynion Deddf Plant 1989. Mae'r ddeddf yn diffinio plant a phobl ifanc fel unrhyw un sy'n 18 oed neu'n iau. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff, aelodau a gwirfoddolwyr CFfI Cymru, a'r rhai sy'n dod i gyswllt â CFfI Cymru.

Cynlluniwyd y polisi er mwyn annog datblygu arfer dda i atal esgeulustod a chamdriniaeth gorfforol, emosiynol a rhywiol i bobl ifanc tra'u bod yng ngofal CFfI Cymru. Mae'n pwysleisio cyfrifoldeb yr holl weithwyr i fod yn ymwybodol o arwyddion camdriniaeth, ac yn darparu dull cyflym ac effeithiol o adrodd os oes amheuaeth, datgeliad neu ddarganfyddiad o gamdriniaeth, beth bynnag fo'r sefyllfa ble digwyddodd y gamdriniaeth.

Mae CFfI Cymru wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant diogelu plant a phobl ifanc ar gyfer staff ac aelodau, i godi ymwybyddiaeth o faterion ac i atal digwyddiadau.

Mae'r polisi wedi'i fwriadu hefyd i amddiffyn y rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc rhag cyhuddiadau di-sail neu rhag ymddwyn mewn modd a all fod â bwriadau da ond sydd yn annoeth, ac i alluogi CFfI Cymru i gyflawni ei 'ddyletswydd gofal'.

Dyletswydd gofal cyfreithiol
Mae'r gyfraith yn diffinio plentyn fel rhywun sy'n iau na 18 oed.

Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2002.
Gwirio gweithwyr sy'n gweithio gyda phlant - i bwrpas diogelu plant, ystyrir holl wirfoddolwyr CFfI Cymru sydd â mwy o gyfrifoldebau na'r aelod arferol fel gweithwyr. Mae arolygu, hyfforddi neu fod yn gyfrifol am blant a phobl ifanc yn ddyletswydd 'Reoledig'. Mae cyflogwr sydd ddim yn cymryd y camau priodol i wirio unrhyw weithwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn torri'r gyfraith. Mae hyn yn golygu fod angen i'r holl wirfoddolwyr dderbyn gwiriad manylach y Biwro Cofnodion Troseddol.

Camddefnyddio ymddiriedaeth - Mae Deddf Troseddau Rhyw (Gwelliannau) 2000 wedi cyflwyno'r drosedd camddefnyddio ymddiriedaeth. Mae'r drosedd yn ymwneud â pherthnasoedd rhywiol rhwng person sydd dros 18 oed a pherson sydd o dan 18, ble mae'r oedolyn mewn 'safle o ymddiriedaeth' mewn perthynas â'r person ifanc.

Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

1. Mae gan bawb sy'n iau na 18 oed hawliau yn y confensiwn hwn.

2. Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb beth bynnag eu hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag maent yn feddwl neu'n ddweud, beth bynnag fo'u cefndir teuluol.

3. Dylai pob mudiad sy'n ymwneud â phlant weithio er lles y plentyn.

4. Dylai llywodraethau sicrhau bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

5. Dylai llywodraethau barchu hawl a chyfrifoldeb teuluoedd i roddi arweiniad a chanllawiau i'w plant, fel y byddant yn dysgu defnyddio eu hawliau yn gywir tra'u bod yn tyfu i fyny.

6. Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael byw ac yn datblygu'n iawn.

7. Mae gan bob plentyn hawl i enw sydd wedi'i gofrestru'n gyfreithiol, yr hawl i fod yn perthyn i genedl, yr hawl i wybod, a chyn belled a bo hynny'n bosibl, i fod yng ngofal eu rhieni.

8. Dylai llywodraethau barchu hawl plentyn i fod ag enw, cenedl, a chysylltiadau teuluol.

9. Ni ddylid tynnu plant oddi wrth eu rhieni oni fydd hynny er eu lles, e.e. os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Os bydd rhieni wedi gwahanu, mae gan blant yr hawl i gadw cysylltiad â'r ddau riant, oni bai bod hynny'n niweidiol i les y plentyn.

10. Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd arwahan allu symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall rhieni a phlant gadw cysylltiad agos neu ddod yn ôl at ei gilydd fel uned deuluol.

11. Dylai llywodraethau weithredu i sicrhau na fydd plant yn cael eu cipio o'u gwlad yn anghyfreithlon.

12. Mae gan blant hawl i ddatgan yr hyn a gredant a ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau a allai eu heffeithio, a dylid rhoddi ystyriaeth i'w safbwyntiau.

13. Mae gan blant hawl i dderbyn a rhannu gwybodaeth, cyn belled na fydd y wybodaeth yn niweidiol iddynt hwy nac eraill.

14. Mae gan blant hawl i feddwl a chredu beth bynnag y maent yn dymuno ac i arfer eu crefydd, cyn belled na fydd hynny yn atal eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni ddarparu arweiniad i'w plant ar y mater hwn.

15. Mae gan blant hawl i gyfarfod y naill a'r llall ac i ymuno â grwpiau a mudiadau, cyn belled na fydd hynny yn atal eraill rhag mwynhau eu hawliau.

16. Mae gan blant hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu hamddiffyn rhag ymosodiadau yn erbyn eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

17. Mae gan blant hawl i dderbyn gwybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai'r teledu, radio a phapurau newydd ddarparu gwybodaeth y gall plant ei ddeall, ac ni ddylent hyrwyddo deunyddiau a allai niweidio plant.

18. Dylai'r ddau riant rannu'r cyfrifoldeb am fagu eu plant a dylent ystyried yr hyn sydd orau er lles y plentyn bob amser. Dylai llywodraethau gynorthwyo rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

19. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn derbyn gofal priodol ac yn cael eu diogelu rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.

20. Dylai plant na all dderbyn gofal gan eu teulu dderbyn gofal teilwng gan bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith.

21. Pan gaiff plant eu mabwysiadu, yr ystyriaeth bennaf yw'r hyn sydd orau er eu lles. Mae'r un rheolau'n weithredol os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn wlad lle'u ganwyd neu os ydynt yn cael eu symud i wlad arall.

22. Dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid fwynhau'r un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

23. Dylai plant sydd ag anableddau o unrhyw fath dderbyn gofal a chefnogaeth arbennig fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol.

24. Mae gan blant yr hawl i dderbyn gofal iechyd o safon uchel a dŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân, fel y gallant fwynhau iechyd da. Dylai gwledydd cyfoethog gynorthwyo gwledydd tlawd i sicrhau hyn.

25. Dylai plant sydd yng ngofal yr awdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni dderbyn adolygiad rheolaidd o'u sefyllfa.

26. Dylai'r llywodraeth ddarparu cefnogaeth ariannol ychwanegol i deuluoedd plant sydd mewn angen.

27. Mae gan blant yr hawl i safon byw sy'n ddigon da i gwrdd â'u hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r llywodraeth gynorthwyo teuluoedd na all fforddio i ddarparu hyn.

28. Mae gan blant hawl i dderbyn addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod yn rhad ac am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog gynorthwyo gwledydd tlawd i sicrhau hyn.

29. Dylai addysg annog personoliaethau a doniau plant i ddatblygu'n llawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni a'u diwylliannau hwy ac eraill.

30. Mae gan blant hawl i ddysgu iaith ac arferion eu teuluoedd, os defnyddir y rheini gan y mwyafrif o bobl y wlad neu beidio.

31. Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae a mwynhau ystod o weithgareddau.

32. Dylai'r llywodraeth ddiogelu plant rhag gwaith a all fod yn beryglus neu a allai niweidio eu hiechyd neu addysg.

33. Dylai'r llywodraeth ddarparu dulliau o ddiogelu plant rhag cyffuriau peryglus.

34. Dylai'r llywodraeth amddiffyn plant rhag camdriniaeth rywiol.

35. Dylai'r llywodraeth sicrhau na fydd plant yn cael eu cipio neu eu gwerthu.

36. Dylid diogelu plant rhag unrhyw weithgareddau a allai niweidio eu datblygiad.

37. Nid ddylid rhoddi triniaeth greulon i blant sydd wedi torri'r gyfraith. Ni ddylid eu carcharu gydag oedolion a dylent allu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd.

38. Ni ddylai llywodraethau ganiatáu i blant ymuno â'r lluoedd arfog. Dylid rhoi sylw arbennig i blant sy'n byw mewn ardaloedd ble mae rhyfel.

39. Dylai plant sydd wedi'u hesgeuluso neu gam-drin derbyn cefnogaeth arbennig i'w cynorthwyo i adfer eu hunan-barch.

40. Dylai plant a gyhuddir o dorri'r gyfraith dderbyn cymorth cyfreithiol. Ni ddylid dedfrydu plant i gyfnod o garchar ond yn achos y troseddau mwyaf difrifol.

41. Os yw cyfreithiau gwlad benodol yn amddiffyn plant mewn modd gwell nag erthyglau'r Confensiwn, dylai'r cyfreithiau hynny barhau mewn grym.

42. Dylai'r llywodraeth sicrhau bod gwybodaeth am y Confensiwn ar gael ar gyfer pob rhiant a phlentyn.

GWEITHDREFN RECRIWTIO

Oherwydd natur y CFfI, mae mwyafrif yr arweinyddion wedi'u meithrin trwy'r mudiad ac wedi'u gwahodd gan aelodau i ymgymryd â'r gwaith. Pan fydd aelod yn symud ymlaen i fod yn arweinydd neu'n cymryd cyfrifoldebau ychwanegol mewn clwb neu sir, dylid eu trin yn yr un modd â rhywun o du allan i'r mudiad sy'n ymgeisio am swydd neu'n cynnig cynorthwyo. Mae gan staff a gwirfoddolwyr yr hawl i dderbyn yr un driniaeth ac i rannu'r un dyletswyddau a chyfrifoldebau. Mae'r gair STAFF o hyn ymlaen yn cyfeirio at weithwyr gwirfoddol a chyflogedig CFfI Cymru fel ei gilydd.

Disgrifir y defnydd o wiriadau'r Biwro Cofnodion Troseddol (CRB) yn fanwl yn rhan 3 y polisi, fodd bynnag, dylid cofio nad yw gwiriadau CRB yn cael eu defnyddio i amddiffyn plant a phobl ifanc yn unig. Mae gwiriadau CRB hefyd yn ein cynorthwyo i adnabod yr unigolion hynny sydd wedi eu dyfarnu'n euog o droseddau yn ymwneud ag anonestrwydd ac yn ein cynorthwyo i amddiffyn ein cronfeydd ariannol. Mae cynnal gwiriad CRB yn profi ein bod yn cwrdd â'n dyletswydd i sicrhau bod ymddiriedolwyr y CFfI yn bobl ddibynadwy a gonest.

Mae'n rhaid cofio y bydd rhai unigolion â rhesymau cudd am ddymuno gweithio gyda phobl ifanc, ac ni allwn beryglu ein pobl ifanc neu enw da'r Clybiau a'r Siroedd. Felly, er mwyn lleihau'r perygl o ddarpar gam-drinwyr yn dod i gyswllt â phobl ifanc yn y Clybiau, mae'n angenrheidiol i ddilyn y drefn ganlynol:

AR GYFER STAFF NEWYDD

I bwrpas y polisi hwn, bydd staff yn cynnwys y canlynol:
Swyddogion Clwb a Sirol
Arweinyddion Clwb
Cynghorwyr Clwb a Sirol
Ymddiriedolwyr
Staff Sirol a CFfI Cymru

Mae'n arfer dda i sicrhau bod gan yr holl staff ddisgrifiad swydd eglur sy'n rhoi manylion am eu dyletswyddau ac yn amlinellu strwythurau rheolaeth linol.
Dylai staff gwblhau ffurflen gais, derbyn cyfweliad a darparu o leiaf dau eirda diweddar (dylid eu gwirio yn drwyadl), gan y bydd y broses hon yn darparu cyfle i asesu profiad blaenorol. Dylai darpar aelodau staff egluro unrhyw fylchau mewn cyflogaeth neu breswyl. Dylai'r holl staff dderbyn hyfforddiant anwytho. Dylai'r holl staff ddarparu o leiaf dau fath

o adnabyddiaeth, er enghraifft trwydded deithio a bil iwtiliti, a dylid cofnodi'r manylion yn ffeil personél yr unigolyn. Dylai'r cynnig o waith gyda'r CFfI fod yn ddibynnol ar gwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus, fel arfer tri mis. Dylai staff dderbyn cefnogaeth ac arolygaeth gyson gan eu rheolwr llinol neu gan berson enwebedig arall y cytunwyd gyda'r aelod staff.

- Gan fod angen datgelu'r **holl** gollfarnau yn ymwneud â phlant a phobl ifanc (yn cynnwys 'collfarnau wedi'u disbyddu'), dylai pob aelod staff dderbyn Ffurflen Datganiad (i'w arwyddo) a llythyr datganiad staff (gweler atodiad B4).

- Dylai unrhyw un sydd â chyswllt â phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed dderbyn gwiriad manylach a drefnir trwy 'r Biwro Cofnodion Troseddol.

3. GWIRIADAU COFNODION TROSEDDOL AR GYFER PERSONÉL CFfI

Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu'r Biwro Cofnodion Troseddol (CRB) fel asiantaeth i wirio cofnodion troseddol pobl sy'n ymgeisio am waith cyflogedig a gwirfoddol gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r asiantaeth yn defnyddio'r gair Datgeliad i bwrpas marchnata'r gwasanaeth i'r cyhoedd. Gweinyddir gwiriadau Datgeliad Safonol a Manylach yn rhad ac am ddim ar gyfer gwirfoddolwyr.

Mae'n rhaid talu am wiriadau ar gyfer gweithwyr cyflogedig, ac mae manylion y prisiau cyfredol ar wefan **www.disclosure.gov.uk.** Bydd unrhyw swydd o fewn y CFfI sydd â mynediad i blant a phobl ifanc heb arolygaeth yn derbyn Datgeliad y Biwro Cofnodion Troseddol.
Amledd gwiriadau CRB – dylid cynnal gwiriadau o'r newydd ar gyfer staff o fewn tair blynedd fan bellaf.
Hygludedd gwiriadau CRB – mae'r gwasanaeth Datgeliad yn argymell na ddylid derbyn gwiriadau CRB sydd wedi'u gweinyddu gan fudiad arall. Dyfynnir y canlynol o'u gwefan ;

'Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) wedi gwneud y penderfyniad hwn o ganlyniad uniongyrchol i'r peryglon cynhenid sydd yn gysylltiedig ag ail-ddefnyddio Datgeliad. Nid yw'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cymeradwyo defnyddio hygludedd. Mae cwmnïau sydd yn dewis derbyn Datgeliad a gyhoeddwyd yn flaenorol yn gwneud hynny ar eu menter eu hunain. Dylai cwmnïau sydd yn dewis parhau gyda'r arfer o dderbyn Datgeliadau a gyhoeddwyd yn flaenorol ddarllen fframwaith newydd hygludedd.'

Mae 2 fath o Ddatgeliad.
Mae CFfI Cymru yn argymell y dylai'r holl wiriadau CRB fod yn rai manylach

Datgeliad Safonol

Mae datgeliad safonol yn bennaf ar gyfer swyddi sy'n ymwneud â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed. Gellir defnyddio Datgeliadau Safonol ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn meysydd penodol hefyd, yn cynnwys y gyfraith neu gyfrifedig. Mae datgeliadau safonol yn cynnwys y canlynol;

- Manylion yr holl gollfarnau, rhybuddiadau, ceryddion a rhybuddion sydd wedi'u cofnodi ar gyfrifiadur cenedlaethol yr Heddlu (PNC);

ac os yw'r swydd yn golygu gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed a'r blychau perthnasol ar y ffurflen wedi'u marcio i nodi hynny:

- Gwybodaeth Cofrestr y Ddeddf Amddiffyn Plant (PoCA);
- Gwybodaeth Cofrestr y Ddeddf Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA); a
- Gwybodaeth sydd ym meddiant yr Adran Addysg a Sgiliau yn unol ag Adran 142 o Ddeddf Addysg 2002, yn ymwneud ag unigolion sy'n anaddas neu wedi eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant.

Datgeliad Manylach

Mae'r Datgeliad Manylach ar gyfer swyddi sydd â llawer iawn mwy o gyswllt gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed. Yn gyffredinol, bydd y math hwn o waith yn golygu darparu gofal cyson, arolygu, hyfforddi neu fod yn gwbl gyfrifol am bobl o'r fath. Mae enghreifftiau yn cynnwys Athrawon ac Arweinyddion Sgowtiaid neu Geidiau. Gweinyddir Gwiriadau Manylach hefyd i bwrpas rhai anghenion statudol megis deddfau hapchwarae a loteri.

Mae Datgeliad Manylach yn cynnwys yr un wybodaeth â'r Datgeliadau Safonol, ond hefyd gwybodaeth gan yr heddlu lleol a ystyrir yn berthnasol gan Brif Swyddog(ion) yr Heddlu.

Mynediad i Wiriadau CRB
Bydd dulliau o gael mynediad i wiriadau CRB yn amrywio fesul sir. Dylid cysylltu â'r Gwasanaeth Ieuenctid Gwirfoddol lleol i dderbyn cyngor ynghylch cael mynediad i'r gwiriadau. Gall Cynghorau Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol neu ganghennau sirol mudiadau megis *Clubs for Young People* neu *UK Youth* hefyd gynnig mynediad i wiriadau. Mae gwefan 'Disclosure' hefyd yn rhestru asiantaethau o'r sector wirfoddol sy'n barod i weinyddu gwiriadau ar ran mudiadau eraill.

Gweithdrefnau cofnodi
Os yw aelod staff yn credu ar unrhyw adeg fod;
- Plentyn neu berson ifanc yn agored i berygl neu niwed difrifol neu
- wedi dioddef camdriniaeth neu
- angen triniaeth feddygol ar frys neu
- yn credu bod person arall yn agored i berygl difrifol o niwed gan y plentyn neu berson ifanc

Dylid gweithredu'r drefn gofnodi a nodir yn Atodiad D heb oedi.

Os yw aelod staff yn ansicr ynglŷn â chofnodi digwyddiad neu beidio, dylent gysylltu â'u rheolwr llinol, CFfI Cymru neu Swyddog Amddiffyn Plant FfCCFfI i gael cyngor.

Trefn Gwyno
Mae polisi Safonau Ymddygiad Personol CFfI Cymru a Chyfansoddiad CFfI Cymru yn darparu canllawiau yn ymwneud ag ymdrin â chwynion yn erbyn ymddygiad aelodau a staff. Mae cyfansoddiadau Clwb a Sirol yn darparu modd i ymdrin â chwynion yn erbyn aelodau.

Datganiad yn ymwneud ag Achwyn
Disgrifir achwyn ('whistle blowing') fel dwyn achosion o ddrygioni, camddefnydd, neu ymddygiad anfoesol gan aelod staff o fewn mudiad i sylw'r rhai sy'n dal yr awdurdod yn y mudiad hwnnw.
Anogir staff i fynegi unrhyw amheuaeth, bryder neu honiad i'w rheolwr llinol fel y gellir cynnal ymchwiliad i'r digwyddiad. Mae cyfansoddiad FfCCFfI y nodi'r drefn ar gyfer ymdrin ag anghydfodau.

Pan fydd aelod o staff yn adrodd ynghylch amheuon am aelod arall o staff neu'r mudiad ei hun, bydd CFfI Cymru yn amddiffyn y person dan sylw rhag dioddef aflonyddwch neu driniaeth annheg.

Polisi cyfrinachedd
Mae'r egwyddor o gyfrinachedd yn hollbwysig i drefn CFfI Cymru. Ni ddylai gwybodaeth fod yn gyfrinachol i staff unigol - mae ffin cyfrinachedd o fewn y tîm staff. Mae gweithwyr ieuenctid yn trin gwybodaeth bersonol am bobl ifanc mewn modd cyfrinachol, os ydyw wedi'i dderbyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu trwy awgrym. Mae gwybodaeth o'r fath yn cynnwys enw, cyfeiriad, gwybodaeth fywgraffyddol a manylion eraill am fywyd ac amgylchiadau'r person ifanc, a allai arwain at eu hadnabod. Ni fydd gwybodaeth yn ymwneud â pherson ifanc yn cael ei drosglwyddo i berson ifanc arall oni dderbynnir eu caniatâd. Os yw staff yn dymuno mynegi gwybodaeth am berson ifanc y tu allan i'r tîm staff, dylid gofyn am ganiatâd y person ifanc. Gall amgylchiadau neilltuol godi os oes perygl y gallai person ifanc greu niwed corfforol i'w hunain neu i drydydd parti. Mewn achos o'r fath dylid ceisio caniatâd y person ifanc i gysylltu ag asiantaethau eraill, oni bai bod sail i gredu na all y person ifanc gymryd cyfrifoldeb am ei (g)weithredoedd. Mewn sefyllfaoedd pan gall person ifanc ddatgelu gwybodaeth am gamdriniaeth rywiol, gorfforol, neu emosiynol, ni ddylai'r gweithiwr ar unrhyw gyfrif cytuno i gadw cyfrinachedd.

Mae natur gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn golygu bod dilyn canllawiau cadarn yn anodd mewn rhai meysydd. Mae angen i staff fod yn ymwybodol o ffactorau amrywiol sy'n ymwneud â chyfrinachedd, a all eu heffeithio o fewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwaith, a gwneud y penderfyniadau priodol. Os oes gan aelod staff unrhyw amheuon, dylent fynnu cyngor gan eu rheolwr llinol, CFfI Cymru neu gysylltu â Swyddog Amddiffyn Plant FfCCFfI i dderbyn cymorth.

Gweithredu cyfrinachedd yn ymarferol
Mae natur ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn golygu y bydd perthnasoedd ymddiriedus yn datblygu rhwng aelodau ac oedolion sy'n arweinyddion. Mae'n allweddol bod unrhyw oedolyn o fewn CFfI Cymru yn deall y cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth gadw cyfrinachedd aelodau.

Yn achlysurol, bydd aelod yn mynegi gwybodaeth gyfrinachol wrth oedolyn sy'n arweinydd. Fel arfer, bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei ddarparu i bwrpas gwirio gwybodaeth, gofyn am gyngor neu gefnogaeth neu dim ond i rannu rhywbeth o natur bersonol. Ar brydiau, gall y wybodaeth achosi pryder neu anesmwythodd i'r oedolyn, ond ni fydd natur y wybodaeth yn gwneud i'r oedolyn gredu bod y person ifanc mewn perygl difrifol o niwed. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys aelod sy'n trafod ymddygiad rhywiol mentrus neu'n trafod am ddefnyddio alcohol neu gyffuriau.

Pan fydd unigolyn yn datgelu gwybodaeth neu ar fin datgelu gwybodaeth sy'n gwneud i'r aelod staff gredu bod yr unigolyn mewn perygl o niwed difrifol, dylai'r aelod staff rybuddio'r person eu bod wedi cyrraedd pwynt ble na ellir gwarantu cyfrinachedd pellach. Mae datganiad o'r fath yn galluogi'r unigolyn i beidio datgelu gwybodaeth bellach os dymunant. Pe byddai'r unigolyn yn dymuno parhau, dylid dilyn y canllawiau a amlinellir yn Atodiad D1.

Asesu risg
Mae asesu risg yn bwysig o safbwynt amddiffyn plant a phobl ifanc rhag derbyn niwed. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch FfCCFfI yn darparu canllawiau yn ymwneud ag asesu risgiau'r holl weithgareddau, a dylid ei ddilyn ar bob achlysur i sicrhau diogelwch holl aelodau FfCCFfI ac unrhyw un sy'n bresennol mewn gweithgareddau.

Hyfforddiant
Mae CFfI Cymru wedi ymroddi i hyfforddi'n rheolaidd a datblygu ei staff a bydd yn sicrhau y caiff staff gyfleoedd cyson i fynychu Hyfforddiant Diogelu Plant a Phobl Ifanc. Mae gofynnol o fewn Hyfforddiant Diogelu Plant a Phobl Ifanc i sicrhau bod unrhyw aelod staff newydd yn derbyn hyfforddiant addas fel rhan o'u rhaglen anwytho. Bydd FfCCFfI yn darparu Hyfforddiant Diogelu Plant a Phobl Ifanc ymhob ardal o leiaf pob dwy flynedd.

Cynnal gweithgareddau ac ymweliadau sy'n fwy diogel

Cyfradd staff i bobl ifanc
Mae cyfradd staff i bobl ifanc yn amrywio ac yn dibynnu ar y gweithgaredd sydd dan sylw. Mae'r DFES yn argymell o leiaf un oedolyn i bob 10 person ifanc. Bydd o leiaf dau oedolyn yn bresennol ymhob gweithgaredd CFfI, ac yn ddelfrydol, dylai staff gwrywaidd a benywaidd fod yn bresennol. Mae angen cynnal asesiad risg ar gyfer pob gweithgaredd, a phenderfynu beth fydd y gyfradd staffio. Bydd angen mwy o staff ar gyfer gweithgareddau preswyl, ac yn yr un modd ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys pobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Caniatâd Rhieni
Mae ffurflenni caniatâd rhieni i'w gweld yn atodiadau C6, C7, C8.
Dylai rhiant neu warchodwr pob aelod sy'n iau na 18 oed arwyddo ffurflen ganiatâd i alluogi eu plentyn i gyfranogi yng ngweithgareddau'r CFfI.

- Pwrpas y ffurflen ganiatâd yw sicrhau bod y rhiant yn ymwybodol o fanylion amseroedd, lleoliad a chost y digwyddiad arfaethedig
- Mae'n datgan pwy sy'n gyfrifol am ddigwyddiad ac yn nodi rhif ffôn cyswllt.
- Mae'r ffurflen yn rhoi'r cyfle i'r rhiant ddarparu gwybodaeth i arweinydd y digwyddiad am unrhyw faterion iechyd neu ddiet.
- Mae'r ffurflen hefyd yn galluogi rhieni i roddi caniatâd i arweinydd y digwyddiad i gymryd cyfrifoldeb mewn argyfwng meddygol, os dymunant.
- Mae'n bwysig felly i ddiweddaru ffurflenni caniatâd gyda'r wybodaeth bersonol hwn.
- Mae'n arfer dda i arweinwyr gweithgaredd fod â ffurflenni caniatâd aelodau sy'n 18 oed neu'n iau yn eu meddiant a ffurflenni cyswllt Argyfwng ar gyfer rhai sy'n 18 oed neu'n hŷn. Gall argyfwng ddigwydd ar y ffordd i weithgaredd, megis aelod yn mynd yn sâl neu ddamwain ffordd.

Ffurflenni Caniatâd Cyffredinol - gellir defnyddio ffurflen ganiatâd cyffredinol ar gyfer cyfarfodydd wythnosol arferol y clwb a gynhelir mewn man ac ar amser penodol, ac i gynnwys ystod o weithgareddau wythnosol cyffredinol y CFfI, a gellir hysbysu'r rhieni o'r gweithgareddau hynny naill ai ar y ffurflen neu trwy ddefnyddio dogfen ychwanegol. Gallai ffurflen o'r fath fod ar gyfer tymor neu flwyddyn rhaglen y Clwb. Dylid cwblhau ffurflen ganiatád cyffredinol o leiaf unwaith y flwyddyn.

Ffurflenni Caniatâd Ymweliadau a Phreswyl - dylid defnyddio'r ffurflenni caniatâd Ymweliadau a Phreswyl ar gyfer yr holl weithgareddau a'r digwyddiadau sy'n ychwanegol i raglen arferol y clwb.

Ffurflenni cyswllt ac iechyd ar gyfer aelodau sy'n 18 oed neu'n hŷn
Mae'n arfer dda i aelodau a staff ddarparu manylion cyswllt argyfwng a manylion unrhyw gyflwr meddygol a allai greu anawsterau ar gyfer Swyddogion neu Arweinyddion.

Cyfrinachedd ffurflenni caniatâd

Dylai'r wybodaeth a dderbynnir aros yn gyfrinachol a'i gadw ym meddiant arweinydd y gweithgaredd. Yn dilyn y gweithgaredd, dylid dinistrio'r ffurflenni i gadw cyfrinachedd.

Cofnodion y Clwb
Mae'n allweddol bod clybiau yn cadw cofnod o'u haelodau, ac y bydd cofnod ar gael yn ystod cyfarfodydd clwb pe byddai digwyddiad neu argyfwng. Gellir gwneud hyn trwy ffeilio ffurflenni caniatâd rhieni mewn ffolder ac enwebu Swyddog neu Arweinydd Clwb i gludo'r ffolder i gyfarfodydd.

Defnyddio lluniau neu gofnod wedi'i recordio o blant a phobl ifanc
Mae Polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc CFfI Cymru yn cynnwys ymroddiad i sicrhau y bydd unrhyw gyhoeddiadau neu gyfryngau yn darlunio cyfranogwyr mewn modd addas ac â'r parch priodol.
• Ni ddylid cyhoeddi llun neu ddelwedd (gwefan) o berson ifanc heb ganiatád ysgrifenedig, ac ni ddylid cynnwys gwybodaeth bersonol am yr unigolyn gyda'r ddelwedd, heblaw enw'r person ifanc.
• Dylid gofalu na fydd delweddau o blant sydd o dan orchymyn llys yn cael eu recordio neu gyhoeddi heb ganiatád .
• Dylid atal rhag ffrydio delweddau ar wefan. Gall yr oedi yn y ffrydio creu cyfleoedd ar gyfer golygu delweddau anaddas. Argymhellir defnyddio gweinydd annibynnol i sicrhau na ellir cael mynediad i ddelweddau, na'u copïo neu ddadlwytho.
• Dylid monitro gwefannau'n ofalus i atal defnydd o ddelweddau neu destun anaddas.
• Dylid rhoi gwybod i CFfI Cymru am unrhyw achos o ddefnyddio delweddau anaddas, fel y gallant hysbysu'r awdurdodau perthnasol.
• Dylai ffurflenni caniatâd rhieni CFfI Cymru gynnwys datganiad penodol yn nodi y gall ffotograffwyr fod yn bresennol mewn digwyddiadau CFfI ac y gallai delweddau gael eu cyhoeddi. Wrth roddi caniatâd i'r plentyn fynychu'r digwyddiad, maent yn derbyn y gall llun o'r plentyn/cyfranogwr gael ei dynnu. I bwrpas y polisi hwn, mae tynnu llun yn cyfeirio at ddelweddau llonydd a symudol.